# Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

26 Medi 2018, Ystafell Gynadledda A

# Cofnodion

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AC (Cadeirydd) | Dr Dai Lloyd AC |
| Janet Finch-Saunders AC | Rhun ap Iorwerth AC |

| | |
|---|---|
| Liz Andrews, Hosbis y Ddinas | Catrin Edwards, Hosbis y DU |
| Andy Goldsmith, Tŷ Gobaith | Paul Harding, Marie Curie |
| Iwan Hughes, RPS | Sarah Hughes, Maggies |
| Debbie Jones, BILl Abertawe Bro Morgannwg | Tracy Jones, Ty Hafan |
| Iain Mitchell, Hosbis Sant Cyndeyrn | Greg Pycroft, Macmillan |
| Rosie Raison, Coleg Nyrsio Brenhinol | Emma Saysell, Gofal Hosbis Dewi Sant |
| Grant Usmar, Hosbis y Cymoedd | |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Jayne Bryant AC | Llyr Gruffydd AC |
| Helen Mary Jones AC | Jane Hutt AC |
| James Cooper, Gyda'n Gilydd dros Fywydau Byr | Laura Hugman, Sefydliad Paul Sartori |
| Huw Owen, Cymdeithas Alzheimer's Cymru | Steve Parry, Hosbis Tŷ'r Eos |
| Trystan Pritchard, Hosbis Dewi Sant | Kevin Thomas, MNDA Cymru |

## Croeso

## Camau nesaf: Ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol i anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal hosbis a gofal lliniarol

Rhannwyd llythyr Ysgrifennydd y Cabinet at y Cadeirydd, dyddiedig 4 Medi 2018, yn ymateb i argymhellion ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol, gyda'r rhai a oedd yn bresennol.

Dosbarthwyd a thrafodwyd dogfen a baratowyd gan Hosbis y DU (Hospice UK), a oedd yn nodi ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i bob argymhelliad, ac yn rhoi dadansoddiad o safbwynt Hosbis y DU ac yn cynnig cynllun gweithredu ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol.

Roedd y drafodaeth yn cynnwys:

- Croesawu'r ymateb adeiladol gan Ysgrifennydd y Cabinet.
- Nododd Hosbis y DU a Rhun ap Iorwerth AC bryder bod cynifer o'r argymhellion wedi'u derbyn yn llawn ar y sail eu bod eisoes yn cael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru neu'r Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes (EOLCIB), ond bod y dystiolaeth a gafwyd yn sgîl yr ymchwiliad yn dangos nad ydynt yn cael eu gweithredu'n effeithiol neu'n gyflawn.
- Nodwyd y cymharol ychydig o gyfeiriadau ac ymrwymiadau a oedd i weithredu argymhellion yn ymwneud â gofal lliniarol pediatrig. Cytunwyd y dylai'r Grŵp ymchwilio rhagor i hyn.
- Cynigiodd Mark Isherwood AC gam gweithredu ychwanegol ar gyfer y Grŵp, sef, i fynd ar drywydd cyllido hosbisau elusennol yn gynaliadwy, gan gynnwys deall effaith datganoli cyllid ar gyfer hosbisau i fyrddau iechyd. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cytuno ar hyn, ac roedd y cynrychiolwyr o'r hosbisau yn awyddus i ymgorffori gweithio ar y cyd gyda byrddau iechyd yn y broses o ddatblygu Cynlluniau Integredig Tymor Canolig.
- Cododd John Mitchell bryder ynghylch argymhellion y rhoddwyd y cyfrifoldeb amdanynt i'r Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes, gan fod dyfodol y bwrdd hwn yn ansicr y tu hwnt i 2020.
- Nododd Rosie Raison bryderon y Coleg Nyrsio Brenhinol ynglŷn â goblygiadau cyflwyno'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio i nyrsio cymunedol, o ran gweithredu argymhelliad yr ymchwiliad ar lenwi bylchau yn y gwasanaethau nyrsio ardal a nyrsio cymunedol pediatreg. Mae'n annhebygol y bydd y gwaith o gyflwyno'r Ddeddf yn cael ei gwblhau o fewn cyfnod y llywodraeth hon. Byddai'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn cefnogi unrhyw waith y gall y Grŵp Trawsbleidiol ei wneud yn y maes hwn.
- Cyflwyno cyfleoedd i barhau i hyrwyddo'r ymchwiliad ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Nododd Mark Isherwood AC y dylai Aelodau'r Cynulliad chwilio am gyfleoedd i drafod yr Adroddiad yn y Cyfarfod Llawn. Nododd Dr Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon na fyddai'r Pwyllgor am ddyblygu gwaith y Grŵp Trawsbleidiol ond y dylent gyfarfod i drafod ac i godi proffil gofal lliniarol ar agenda Llywodraeth Cymru.

Cam gweithredu: aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol i ystyried y cynllun gweithredu drafft a rhoi adborth i'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd erbyn 31 Hydref 2018.

Cam gweithredu: Aelodau'r Cynulliad a'r Ysgrifennydd i fanteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Ymchwiliad.

Cam gweithredu: Y Cadeirydd i ddarparu ymateb ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Cabinet.

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

**Ethol Cadeirydd**
Ymgeisydd: Mark Isherwood AC
Enwebwyd ac eiliwyd gan: Dr Dai Lloyd AC, Janet Finch-Saunders AC
Canlyniad: Etholwyd Mark Isherwood AC yn Gadeirydd

**Ethol yr Ysgrifennydd**
Ymgeisydd: Dr Catrin Edwards, Hosbis y DU (Hospice UK)
Enwebwyd ac eiliwyd gan: Mark Isherwood AC, Dr Dai Lloyd AC, Janet Finch-Saunders AC
Canlyniad: Hosbis y DU a etholir fel Ysgrifenyddiaeth

## Cydweithio: hosbisau a byrddau iechyd mewn partneriaeth

Rhoddodd Grant Usmar, Prif Weithredwr Hosbis y Cymoedd, a Debbie Jones, Nyrs Ardal gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gyflwyniad ar y prosiect CWTCH - ‘Cydweithio’n agosach at y Cartref’.

Mae Hosbis y Cymoedd yn gwasanaethu poblogaeth Blaenau Gwent, ardal yr effeithir arni gan amddifadedd economaidd-gymdeithasol sylweddol a sydd â llawer o bobl yn dioddef o glefyd rhwystrol yr ysgyfaint (COPD).

Mae CWTCH yn golygu y gellir derbyn cleifion yr Hosbis, y mae angen eu derbyn i’r ysbyty ar gyfer gofal diwedd oes, neu i reoli eu symptomau, yn lleol i Ysbyty Aneurin Bevan, yn lle cael eu trin mewn ysbyty ymhellach i ffwrdd. Bydd y cleifion yn cael eu rheoli ar y cyd gan staff Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a chan yr Hosbis. Bydd gan gleifion mewnol fynediad at yr amrywiaeth lawn o wasanaethau hosbis arbenigol – fel therapi cyflenwol neu gymorth teuluol - yn ystod eu harhosiad fel cleifion mewnol.

Caiff y gofal cydweithredol ei ddarparu ar y cyd gan feddygon teulu, nyrsys ardal a gwasanaethau Hosbis - a pharhau’n ddi-dor os trosglwyddir y claf yn ôl adref.

Mae’r dull gweithredu hwn yn golygu y gall cleifion â salwch sy’n cyfyngu ar eu bywydau:

- gael gofal lliniarol arbenigol, gan gynnwys eu derbyn i ysbyty fel cleifion mewnol, yn eu hardal leol eu hunain;
- bod â pharhad o’u gofal gyda’r Bwrdd Iechyd a gwasanaethau hosbis arbenigol, sydd ar gael yn y gymuned fel claf mewnol neu fel claf allanol;
- cael mynediad at ofal holistaidd (corfforol, emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol) sy’n canolbwyntio ar y claf ac yn ymatebol i anghenion cleifion.

Gweler https://www.youtube.com/watch?v=Vq-gtktAtrY i gael rhagor o wybodaeth.

## Unrhyw fater arall

Dim wedi'i godi.

| Cyfarfodydd 2018-19 | Meetings 2018-19 |
|---|---|
| 23 Tachwedd 2018, 12-13:30, Hosbis Tŷ'r Eos, Wrecsam<br>Thema arfaethedig: Gofal lliniarol mewn cartrefi gofal – rol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol | 23 November 2018, 12-13:30, Nightingale House Hospice, Wrexham<br>Proposed theme: Palliative care in care home – the role of Regional Partnership Boards |
| 19 Chwefror 2019, 8-9yb, Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel<br>Thema arfaethedig: Gofal lliniarol y tu allan i oriau arferol | 19 February 2019, 8-9am, Conference Room A, Tŷ Hywel<br>Proposed theme: palliative care Out of Hours |
| 23 Ebrill 2019, 12-13:30, Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel<br>Thema arfaethedig: Nyrsio cymunedol | 23 April 2019, 12-13:30, Conference Room A, Tŷ Hywel<br>Proposed theme: Community nursing |
| 3 Gorffennaf 2019, 8-9yb, Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel<br>Thema i'w gadarnhau | 3 July 2019, 8-9am, Conference Room A, Tŷ Hywel<br>Theme to be determined |